**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Llywodraeth Cymru
Llawr 5
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Gorffennaf 2013

Annwyl Weinidog

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona: darpariaethau'n ymwneud â chŵn**

1. Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol uchod yn breifat yn ei gyfarfodydd ar 10 a 24 Mehefin 2013.

2. Yn ein trafodaethau, nodom eich bod, ar 23 Tachwedd 2012, wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar Fil Rheoli Cŵn (Cymru) drafft, ac yna, ar 2 Mai 2013, eich bod wedi cyhoeddi datganiad yn dweud:

> "Mae'n glir i mi erbyn hyn, a finnau wedi adolygu'r gwaith ac wedi gwrando ar yr ymatebion, y gallai fod manteision gweithio gyda Llywodraeth y DU i roi ein cynigion ar waith ar lefel Cymru a Lloegr. Rwyf wedi edrych ar amodau'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft sy'n cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ac er fy mod yn cydnabod bod beiau i'w gweld yn y bil drafft, rwyf serch hynny yn credu y gallai fod yn gyfrwng defnyddiol i wireddu'n huchelgais. I'r perwyl hwn, rwyf

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost / Email: ruth.hatton@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

am gael cytundeb y Swyddfa Gartref fod y bil, os caiff fynd yn ei flaen, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Gymru a fydd yn caniatáu i ni lywio'r ddeddfwriaeth arfaethedig mewn ffordd a fydd yn bodloni ein dau amcan ni ynghyd ag amcanion ehangach y Swyddfa Gartref. Rwyf felly wedi atal y gwaith ar Fil Rheoli Cŵn (Cymru) am y tro."

3. Yn dilyn eich datganiad a'r MCD, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

(i) Er y gallai rhai o'r amcanion polisi roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflwyni drwy ei Fil gael eu cyflawni gan Fil y DU, oherwydd bod ffocws gwahanol gan y ddau Fil, fe allai fod yn anodd i awdurdodau lleol gymryd camau ymyrraeth cynnar o dan Fil y DU i atal ci rhag troi'n beryglus, mater roedd Bil Cymru yn gobeithio mynd i'r afael ag ef.

A fyddai modd i chi egluro pam eich bod o'r farn bod y dull ym Mil y DU yn fwy addas?

(ii) A fyddai modd i chi esbonio pam na allai Bil Cymru gyflawni eich amcanion polisi yn llawn a pha bwerau penodol nad ydynt ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol i alluogi gwneud y ddeddfwriaeth hon yng Nghymru?

(iii) Rydych yn cyfeirio'n benodol at gael pwerau i wneud rheoliadau yn eich datganiad ar 2 Mai. Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran cael gafael ar y pwerau hynny, neu a ydych o'r farn nad oes eu hangen bellach?

(iv) A ydych yn rhagweld y byddwch yn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth benodol yng Nghymru yn ymwneud â rheoli cŵn yn y dyfodol agos?

4. Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan,

Yn gywir

David Melding

**David Melding AC**
**Cadeirydd**